Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme



# Meddwl yn feirniadol ar-lein

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae’r adnoddau hyn wedi’u casglu ynghyd i’ch cefnogi ochr yn ochr â hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC).

Rydyn ni wedi cynnwys tudalennau gwe yn y ddogfen hon sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i’ch helpu i gefnogi eraill. Rydyn ni wedi cynnwys y rhain fel dolenni yn y ddogfen hon. Cadwch lygad am y **symbol dolen pinc** y gallwch ei ddewis gyda'ch cyrchwr neu'ch bys i agor a gweld y ddolen.

Os ydych chi’n edrych ar adnodd sydd wedi’i brintio, naill ai teipiwch gyfeiriad y wefan i mewn i borwr gwe neu sganiwch y cod QR i agor y dudalen we.

# Sut i sganio cod QR

1. Agorwch eich ap cod QR ar eich dyfais. Ar lawer o ffonau clyfar modern, defnyddiwch eich camera.
2. Pwyntiwch y camera at y cod QR a gwnewch yn siŵr fod y cod i gyd yn y ffrâm.
3. Edrychwch ar eich sgrin i weld a oes dolen gwefan wedi ymddangos. Os oes, cyffyrddwch ag ef â'ch bys a bydd yn agor y wefan!



# Beth yw meddwl yn feirniadol?

Mae'r rhyngrwyd yn llawn gwybodaeth a chyfleoedd defnyddiol. Fodd bynnag, mae llawer o wybodaeth anghywir neu gamarweiniol ar-lein. Felly, mae angen inni feddwl yn feirniadol wrth archwilio'r rhyngrwyd a dysgu am bethau newydd.

Meddwl yn feirniadol yw'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth yn effeithiol a llunio barn.

Er mwyn meddwl yn feirniadol, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'ch rhagfarnau a'ch rhagdybiaethau eich hun wrth ddod ar draws gwybodaeth, a defnyddio safonau cyson wrth werthuso ffynonellau.

# Twyllwybodaeth a chamwybodaeth

Mae yna lawer o ffyrdd y gall pobl ledaenu gwybodaeth ffug ar-lein. Mae'r term **newyddion ffug** yn cael ei ddefnyddio'n aml. Gallai gwybodaeth gamarweiniol yr adroddir ei bod yn wir gael ei defnyddio i niweidio enw da unigolyn neu sefydliad; yn anffodus mae'n aml yn gredadwy iawn ac mae'n hawdd iawn cael eich dal allan.

**Twyllwybodaeth** – Straeon ffug neu gamarweiniol sydd wedi'u creu a'u rhannu'n fwriadol.

**Camwybodaeth** - Mae hyn hefyd yn golygu straeon ffug neu gamarweiniol. Yn yr achos hwn, efallai na fydd y straeon wedi'u creu na'u rhannu'n fwriadol gyda'r bwriad o gamarwain.

# Swigod hidlydd a siambrau adlais ar y cyfryngau cymdeithasol



Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn wych ar gyfer dod o hyd i newyddion sy'n torri neu wybodaeth. Ond, nid yw'r holl wybodaeth a welwn neu a glywn yn mynd i fod yn wir. Mae'n bwysig ein bod ni'n meddwl cyn i ni rannu cynnwys rydyn ni'n dod o hyd iddo ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Swigen hidlydd:** Mae hyn yn digwydd yn oddefol ar y cyfryngau cymdeithasol. Bydd y pethau yr ydych yn eu hoffi a'ch rhyngweithiadau yn effeithio ar yr algorithm digidol i ddangos pethau sy'n cefnogi'r pethau rydych chi'n eu hoffi a'u cefnogi yn unig.

**Siambr adlais:** Mae hyn yn digwydd trwy ein rhagfarn ddiarwybod ein hunain tuag at bethau yr ydym yn eu hoffi neu'n cytuno â nhw. Yn y pen draw, byddwn ni ddim ond yn rhyngweithio â phobl sydd â safbwyntiau tebyg ar y cyfryngau cymdeithasol oherwydd hyn.

Y broblem yw ein bod yn colli didueddrwydd ac weithiau'n dod yn agored i safbwyntiau eithaf pegynol heb sylweddoli hynny. Yn y diwedd, gallem fynd yn sownd mewn swigen o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a heb fod yn gwybod hynny!

Darganfyddwch fwy ar **https://sharechecklist.gov.uk/**

# Deallusrwydd Artiffisial (AI)



Oherwydd y cynnydd ym mhoblogrwydd AI, gallwn nawr greu delweddau a fideos sy'n gwbl ffuglennol, ond yn realistig iawn.

Gellir trin lluniau a fideos sy'n bodoli eisoes, a gall gwybodaeth ffug ymddangos yn hynod gredadwy neu'n “real.”

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni fod hyd yn oed yn fwy ymwybodol o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, a defnyddio meddwl beirniadol wrth weld a rhannu pethau ar-lein.

# Beth nesaf?

I ddysgu mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni:

https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/cysylltu-a-ni/

0300 111 5050

Dewch o hyd i ni ar

Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan Cwmpas. Mae Cwmpas, a elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.